

Hydref 2003

Mae'r adolygiad hwn, gan Dr Alan Rushton o'r Sefydliad Seiciatreg, Coleg King's Llundain, yn ceisio mapio'r llenyddiaeth ymchwil a gyhoeddwyd ar fabwysiadu plant o ofal cyhoeddus, nodi bylchau ac awgrymu cyfeiriadau ymchwil yn y dyfodol.

Bydd yr astudiaeth, a'r crynodeb hwn, o ddiddordeb i bobl sy'n gweithio ym maes mabwysiadu ac i'r rhai sy'n ymgymryd ag ymchwil, yn ei gomisiynu neu'n ei gynllunio.

Mae'r mapio'n dangos:

- Bod ymchwil ar raddfa fach wedi'i gynnal i gyfraniad asiantaethau at arferion effeithiol o ran recriwtio, asesu, paru a pharatoi ond nid yw'n darparu sylfaen gadarn ar gyfer dewis rhwng mathau eraill o arferion.
- Bod canlyniadau lleoliadau gyda rhieni sy'n mabwysiadu, yn gynnar neu'n hwyr ym mhrofiad plentyn o dderbyn gofal, wedi'u hastudio ond nad oes gwybodaeth ar gael am leoliadau pobl ifanc yn eu harddegau.
- Mae angen gwybod mwy am safbwyntiau defnyddwyr am wasanaethau – yn enwedig safbwyntiau rhai sy'n mabwysiadu o leiafrifoedd ethnig a rhieni biolegol.
- Nid oes cymariaethau o fanteision cost y gwahanol becynnau o wasanaethau cymorth.

Mae'r astudiaeth yn argymhell:

- Ymchwiliad amlddisgyblaethol ar raddfa fawr i ganlyniadau lleoliad a ffactorau sy'n dylanwadu arnynt, ar draws yr holl ddewisiadau lleoliad.
- Astudiaeth frys o'r lefelau a'r math o gyswllt ôl-leoliad/ôl-fabwysiadu gyda'r teulu biolegol.
- Gwerthuso gwasanaethau cymorth mabwysiadu, yn cynnwys archwiliadau byr o baratoi a hyfforddi a threialon ar hap wedi'u rheoli o ymyriadau mwy arbenigol.
- Astudiaethau cyflym ar raddfa lled fach yn ymwneud â gweithredu polisi a safbwyntiau defnyddwyr a allai ddefnyddio holiaduron a chanolbwyntio ar drawstoriad o'r grŵp defnyddwyr perthnasol.

Cyflwyniad

Roedd yr adolygiad yn fwriadol wedi'i gyfyngu i grŵp arbennig o blant mabwysiedig – plant a oedd cyn hynny mewn gofal cyhoeddus – ac i fath arbennig o lenyddiaeth. Llenyddiaeth ymchwil a gyhoeddwyd yn unig sy'n cael ei chwmpasu – nid yw papurau arferion a pholisi, adroddiadau a gwefannau arolygiadau, a fyddai'n cael eu cwmpasu gan adolygiad llawn wedi'u cynnwys. Mae'r adolygiad yn nodi'r materion ymchwil allweddol, ond nid oedd yn bwriadu archwilio astudiaethau unigol yn feirniadol nac yn gynhwysfawr. Mae adolygiadau cyfredol yn cael eu hamlygu lle maent ar gael.

Mae'r cyd-destun polisi ar gyfer ymchwil yn y maes mabwysiadu yn gymhleth ac yn ysgogi teimladau cryf. Dangosodd seminarau diweddar, wedi'u hariannu gan Sefydliad Nuffield, er enghraifft, bod barn a pholisi gwahanol wledydd ar fabwysiadu yn gwahaniaethu'n fawr. Mae gan rai gwledydd safbwynt radical yn erbyn torri cysylltiad â rhieni biolegol, neu ddileu hawliau rhieni gyda theuluoedd biolegol, pan fo plentyn mewn angen neu yn agored i berygl. Nid yw Sweden, er enghraifft, yn caniatáu mabwysiadu plant o ofal heb ganiatâd y rhieni. Mae'r gwledydd hyn yn ffafrio polisi o gadw'r teulu, neu leoli gyda pherthnasau ond heb fabwysiadu. Ond nid yw data ymchwil annibynnol ar ganlyniadau'n cefnogi'r safbwyntiau cryf hyn.

Mae mentrau gwleidyddol diweddar yn y DU wedi annog defnydd cynyddol o fabwysiadu fel ateb i ofal plant na all fyw gyda'u rhieni biolegol. Mae llawer wedi croesawu'r ymgyrch hon am 'sefydlogrwydd', ond hefyd mae wedi arwain at ddadl. Lle mae plant wedi loetran yn ansicr ac am ormod o amser yn y system ofal mae 'sefydlogrwydd' yn amlwg yn flaenoriaeth. Ond nid oes angen yr un ateb ar bob plentyn. Efallai bod yna 'blant sy'n aros', ond efallai nad ydynt yn aros yn benodol i gael eu mabwysiadu. Gellir dadlau hefyd y gall canolbwyntio fel hyn ar fabwysiadu atal ymarferwyr rhag cymryd safbwynt integredig o'r holl ddewisiadau lleoli sydd ar gael, er mwyn sicrhau bod y cynllun gorau'n cael ei ddarparu i bob plentyn unigol.

Mae ymchwil ar fabwysiadu wedi tyfu mewn maint ac ansawdd dros y 40 blynedd diwethaf. Ond bydd yn parhau yn faes ymchwiliad llawn her oherwydd y cysyniadau sy'n cael eu harchwilio ac am fod polisi ac arferion mabwysiadu yn 'darged sy'n amrywio' i ymchwilwyr. Lluniwyd yr adolygiad hwn i nodi cwmpas ymchwil mabwysiadu cyfoes ac i awgrymu pa astudiaethau pellach sydd eu hangen i ddarparu gwell sail dystiolaeth ar gyfer polisi ac arferion.

Canfyddiadau

Mae canfyddiadau'r adolygiad wedi'u trefnu yn ôl pump cam yn y broses fabwysiadu: recriwtio a pharatoi, canlyniadau mabwysiadu, problemau'r plentyn, trefniadau cyswllt â theuluoedd biolegol, a chymorth mabwysiadu.

1. Recriwtio, asesu, paru a pharatoi

Mae recriwtio rhieni newydd, addas i fabwysiadu yn amlwg yn hanfodol i bolisi mabwysiadu llwyddiannus. Mae angen mwy o ymchwil (ymhlith llawer o destunau) i:

- ba mor gost-ffeithiol yw ymgyrchoedd recriwtio mawr a dulliau eraill o recriwtio;
- natur y cyswllt gwreiddiol â'r asiantaeth recriwtio a'r berthynas yn y camau dilynol; a
- chanlyniadau cymharol lleoliadau â grwpiau traddodiadol ac anhraddodiadol.

Ar hyn o bryd, mae'r llywodraeth yn adolygu proses asesu'r sawl sy'n mabwysiadu gyda'r nod o wella tegwch, natur agored a chysondeb asesiadau ar draws asiantaethau. Nid oes unrhyw astudiaethau hyd yma wedi casglu data adeg asesu a'i gysylltu â chanlyniad lleoliad. Mae goblygiad y gwaith a wnaed eisoes yn awgrymu y gall asesiad cyn lleoli dynnu sylw at ymgeiswyr anaddas, ond na ellir rhagweld canlyniadau bryd hynny. Mae grŵp ymchwil yn Coram Family/Great Ormond Street yn ceisio sefydlu a yw arddull ymlyniad gofalwyr newydd yn cyfrannu at dwf ymlyniad y plentyn neu beidio.

Mae cynnal asesiad systematig a chyfannol o'r plant yn cael ei gefnogi gan ganllawiau Kirby a Hardesty ar gynnal asesiadau manwl ar blant sy'n derbyn gofal; ac mae Quinton a Murray yn ddiweddar wedi trafod asesu datblygiad emosiynol ac ymddygiadol plant sy'n derbyn gofal y tu allan i'r cartref. Mae ymarferwyr hefyd angen:

- dull asesu cryno, cydnabyddedig sy'n hawdd ei weinyddu at amrywiol ddibenion (mae'r System Plant Integredig arfaethedig yn addo darparu dull cyffredin o asesu cynnydd datblygiadol plant); ac
- ymchwiliad pellach i gysyniad 'parodrwydd ar gyfer lleoliad', sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio gan ymarferwyr.

Daeth adolygiad diweddar i'r casgliad nad yw ymchwil hyd yma wedi canfod dangosyddion clir sy'n nodi'n amlwg yr elfennau hynny sy'n sail i baru effeithiol. Mae angen ymchwil annibynnol i'r broses baru i weld a ellir nodi ffactorau cyn lleoli sy'n cynyddu'r siawns o gael canlyniadau da. Un o'r materion mwyaf dadleuol wrth baru plentyn neu blant gyda rhieni newydd yw a ddylai rhieni newydd gael eu dethol yn ôl hil ac ethnigrwydd. Mae'r dadleuon yn cael eu crynhoi a'r ymchwil yn cael ei adolygu'n helaeth yn Rushton a Minnis: ceir cytundeb cyffredinol bellach y dylai asiantaethau geisio paru mor agos â phosib ar sail ethnigrwydd lle bynnag fo hynny'n bosib. Mae diddordeb ymchwil yn y dyfodol yn fwy tebygol bellach o ganolbwyntio ar sampl o blant sydd wedi'u lleoli gan rieni o hil arall a'r ffordd y maent yn addasu ac yn uniaethu fel oedolion.

Mae llenyddiaeth ar arferion yn nodi bod dulliau o baratoi'r teulu newydd yn amrywio'n helaeth. Mae angen eu gwerthuso o ran pa mor berthnasol ac effeithiol y maent, a bydd hyn yn haws pan fydd pecynnau cyn lleoli yn cael eu defnyddio'n fwy cyffredinol. Mae'n bwysig dysgu rhagor

hefyd am y ffordd y mae plant y rhai sy'n mabwysiadu yn ymateb i blentyn newydd yn cyrraedd a deall yn well beth all mabwysiadu olygu iddynt hwy a'u teulu estynedig.

Er bod paratoi plant, yn enwedig 'Gwaith Hanes Bywyd', wedi'i ddisgrifio a'i hyrwyddo gan ymarferwyr, nid oes unrhyw astudiaethau o'r ffordd y mae hyn yn effeithio ar ddatblygiad a lleoliad y plentyn wedi hynny. Mae angen ymchwil:

- ar raddfa fawr, gan ddefnyddio dull ymyriad lled safonol wedi'i fanylu'n glir;
- i gymhwysedd diwylliannol asiantaethau wrth recriwtio, asesu, paratoi a chyflawni camau cymorth; ac
- i sefydlu pa ddulliau sy'n cael derbyniad gwell gan wahanol grwpiau.

Er mwyn atal y plant rhag aros yn ddigyfeiriad yn y system ofal, mae cyfnodau amser newydd ar gyfer sefydlogi yn cael eu cyflwyno, ond bydd hefyd yn bwysig cynnal ymchwil i weld a geir cyfaddawd wrth asesu, paru a pharatoi ac ymgynghori ynglŷn â dymuniadau rhieni biolegol er mwyn bodloni targedau manwl.

Mae angen i ni wybod a yw canlyniadau'n wahanol ym mhob un o'r meysydd hyn (recriwtio, asesu, paru a pharatoi) o ganlyniad i ddefnyddio un dull yn hytrach nag un arall i gyflawni gwaith.

2. Canlyniadau mabwysiadu

Mae cyfraddau, achosion a rhai o ganlyniadau uniongyrchol mabwysiadu lle bu tarfu wedi'u hymchwilio ac wedi dangos canlyniadau positif iawn i fabanod iach sy'n cael eu mabwysiadu. Ond mae angen astudio'r canlyniadau ymhellach o ran plant ifanc iawn mabwysiedig gafodd eu hesgeuluso neu eu cam-drin.

Mae nifer o adolygiadau ymchwil wedi'u cynnal yn ddiweddar ar blant sy'n derbyn gofal sy'n cael eu rhoi i'w mabwysiadu, ac maent oll wedi rhoi rhywfaint o sylw i ganlyniad. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Adolygiad Sellick a Thoburn sy'n cwmpasu astudiaethau ar bob math o leoliadau teulu dros dro a pharhaol;
- Adoption Now, sy'n cwmpasu ymchwil a gomisiynwyd yn ddiweddar gan yr Adran Iechyd (DoH);
- Adolygiad Rushton ar lenyddiaeth ar ganlyniadau; a
- Cohen, ar yr hyn sy'n penderfynu ar addasiad mewn plant.

Mae tua dwsin o astudiaethau wedi'u cyhoeddi yn archwilio canlyniadau i blant a leolwyd gyda rhai nad oeddent yn berthnasau, ar ôl babandod. Mae'r rhain wedi dangos cyfraddau tarfu o tua 20%, a hyd yn oed lle mae plant wedi'u lleoli ar ganol eu plentyndod, mae mabwysiadu i'w weld yn gweithio'n dda i'r mwyafrif. Mae'r darlun yn llawer llai positif i'r glasod a'r stori gyfan yn llawer yn fwy cymhleth.

Mae ymchwilwyr mabwysiadu yn cytuno ei bod yn anodd iawn mesur canlyniadau a'i bod yn mynd yn fwy anodd o bosib wrth i ddulliau sy'n cynnwys dangosyddion lluosog gael eu datblygu. Dylai gostwng cyfradd y tarfu barhau yn un o dargedau allweddol y gwasanaeth. Ond mae datblygiadau newydd wedi digwydd i'r gwaith o asesu canlyniad mewn gwahanol fathau o leoliadau, gan gynnwys mabwysiadu. Wrth i dimau ymchwil geisio mesur canlyniadau amrywiaeth o ddewisiadau lleoli a dyfeisio dosbarthiadau mwy defnyddiol na tharfu a goresgyn yn unig, mae yna berygl y gallant fod yn cynhyrchu systemau dosbarthu sy'n gwahaniaethu gan arwain at ddiffyg cymhariaeth rhwng y canfyddiadau.

Mae Selwyn, Sturgess, Baxter a Quinton ar hyn o bryd yn cynnal astudiaeth hydredol o blant a roddwyd i'w mabwysiadu rhwng 3 ac 8 oed yn Avon. Bydd hyn yn rhoi tystiolaeth newydd bwysig ar sut i ragweld canlyniadau yn rhannol am y bydd data pwysig ar gael ar brofiadau cyn gofal y plant. Mae posibiliadau ar gael i astudiaethau eraill, y gwnaeth samplau dilynol eu casglu beth amser yn ôl a lle mae plant a fabwysiadwyd bellach yn lasoed neu'n oedolion ifanc. Mae angen cynnal astudiaethau hefyd ar fabwysiadu grwpiau arbennig – y glasoes sydd am gael eu mabwysiadu, er enghraifft.

Mae'r Adran Addysg a Sgiliau ar hyn o bryd yn ystyried ffyrdd o sefydlu cyfraddau tarfu/goresgyn mabwysiadu yn genedlaethol trwy wirio pa mor aml yr oedd plant yn mynd yn ôl i dderbyn gofal a'r rhesymau dros ail-fynediad. Mae angen ymchwil fanwl ar sail cyfweiliad hefyd o bosib.

Yn ogystal â gofyn sut mae enghreifftiau o fabwysiadu wedi gweithio, cwestiwn pwysig hefyd yw sut maent yn cymharu â chynlluniau lleoli eraill. Gall cymariaethau syml fod yn gamarweiniol ac mae angen astudiaethau newydd o samplau mawr er mwyn gallu rheoli'r gwahaniaethau yn y poblogaethau. Dylid ystyried bod mabwysiadu yn 'werth y risg' ar sail astudiaethau o leoliadau a wnaed yn hwyr yng nghyfnod gofal y plentyn, ond mae tystiolaeth yn dod i'r golwg nad yw mabwysiadu yn gweithio i leiafrif. Cydol yr amser mae mwy yn cael ei ddysgu am ganlyniadau penderfyniadau lleoli. Ond nid yw negeseuon yr ymchwil wedi bod mor syml nac mor hawdd i'w troi'n ganllawiau arferion ag yr oedd rhai yn gobeithio.

3. Profiadau blaenorol y plentyn ac anawsterau cyfredol

Mae'r rhan fwyaf o astudiaethau data hydredol yn cadarnhau mai dyma'r ffactorau sy'n gysylltiedig â lleoliadau lle bu tarfu:

- yn hŷn yn cael eu lleoli;
- profiadau andwyol y plentyn mewn amgylcheddau blaenorol;
- lefel yr anawsterau ymddygiadol yn y lleoliad; a
- lleoli plentyn gyda theulu sefydlog gyda phlentyn tua'r un oed yn byw yno.

Nid yw ymchwil wedi dangos bod rhyw a hil y plentyn a fabwysiadwyd yn gysylltiedig â pherygl uwch y bydd y lleoliad yn ansefydlog ac mae llai o berygl bod anabledd yn achosi tarfu na bod anawsterau emosiynol ac ymddygiadol yn gwneud hynny. Ond ar wahân i'r canfyddiadau hyn mae ystyr cysylltiadau eraill yn anoddach eu datrys. Maes astudio pwysig sy'n berthnasol iawn i

fabwysiadu yw'r ymchwil gynyddol i brofiad cyn-geni a chynnar, ac i gam-drin plant a'i ganlyniadau i bob agwedd ar ddatblygu yn enwedig ymlyniad.

Er ei bod yn debygol y bydd gan blant mabwysiedig amrywiaeth eang o broblemau, mae tri grŵp hynod amlwg yn nisgrifiadau'r plant a'r rhieni newydd o'r anawsterau sydd fwyaf anodd eu trin:

- **Problemau ymddygiadol ac emosiynol:** mae'r rhain yn gyffredin iawn mewn samplau o blant wedi'u lleoli er bod Brand a Brinich wedi dangos bod y gwahaniaeth yn y problemau ymddygiadol mewn plant mabwysiedig o'u cymharu â'r rhai heb eu mabwysiadu yn cyfrif am gyfran fach o blant sydd â llawer iawn o broblemau. Mae ymchwil hydredol wedi sefydlu pa broblemau sy'n debygol o barhau dros gyfnod o amser i blant mabwysiedig. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol i lunio gwaith effeithiol gyda rhieni a phlant.
- **Anawsterau perthynas:** mae cymhwyso'r theori ymlyniad i berthynas mewn enghreifftiau o fabwysiadu wedi bod o gymorth i ddeall tarddiad a chanlyniadau ymlyniad ansicr, ond ychydig o sicrwydd sydd am yr achos a'r effaith.
- **Problemau addysgol:** mewn astudiaeth gynnar o leoliadau hwyr, adroddwyd bod problemau ysgol yn mynd yn bwysicach wrth i'r lleoliad fynd yn ei flaen. Nid yw'n hysbys sut mae plant sy'n cael eu mabwysiadu'n hwyr yn perfformio gydol eu blynyddoedd ysgol ac i ba raddau y maent yn llwyddo mewn addysg uwch. Mae'n bwysig hefyd gwybod pa gyfraniad y mae anawsterau addysgol yn ei wneud i sefydlogrwydd lleoliad ac ansawdd bywyd teulu. Dylai ymchwil i fabwysiadu yn y dyfodol edrych ar ddatblygiadau ym mywyd y plentyn y tu hwnt i'r teulu agos.

4. Trefniadau cyswllt gyda'r teulu biolegol wedi mabwysiadu

Gwnaed rhai astudiaethau i rannau perthnasol y cwestiwn ond ni sefydlwyd grŵp ymchwil hyd yma i archwilio'n drwyadl beth yw effaith tymor byr a hirdymor cyswllt gyda'r teulu biolegol ar y plant ac eraill sy'n gysylltiedig. Byddai angen i gynllun ar gyfer astudiaeth o'r fath gynhyrchu tystiolaeth ar effaith y cyswllt ei hun tra'n cyfrif am y nifer o amrywiadau posib a dryslyd. Byddai'n rhaid hefyd archwilio sampl gynrychioliadol yn y dyfodol, nid yn unig yr achosion hynny y mae asiantaeth yn gwybod bod cysylltiad.

Mae astudiaethau effaith yn awgrymu bod teuluoedd sy'n mabwysiadu yn gallu delio â chyswllt; ond ni wnaed astudiaeth dda o'r effeithiau hyd yma.

5. Dulliau cefnogi mabwysiadu, safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth a gwerthuso ymyriadau

Mae yna lawer o fylchau yn y llenyddiaeth ar safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth ar gymorth mabwysiadu. Gofynnwyd yn amlach am farn rhieni sy'n mabwysiadu a darparwyr gwasanaeth nag am safbwyntiau'r plant neu'r rhieni biolegol. Dim ond mewn ymchwil ar raddfa fach y mae safbwyntiau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig sy'n mabwysiadu wedi'u casglu. Mae angen astudio samplau cynrychioliadol o'r rhai sy'n mabwysiadu yn hytrach na'r rhai sydd wedi'u hymchwilio am eu bod yn gofyn am gymorth. Wrth lenwi'r bylchau mewn ymchwil defnyddwyr gwasanaeth

ceir cynnydd yn y posibilrwydd y bydd gwasanaethau mabwysiadu yn cael eu teilwra'n llawer mwy gofalus nag yn y gorffennol.

Mae yna angen dybryd am fwy o wybodaeth am sut i gefnogi teuluoedd sy'n mabwysiadu sy'n wynebu'r her o fod yn rhieni i blant mabwysiedig sydd ag anawsterau difrifol a pharhaol. Dros y blynyddoedd nesaf, rhaid sefydlu llawer mwy o dreialon i gymharu'r gwahanol ymyriadau i gefnogi lleoliadau sydd mewn trafferth. Bydd angen iddynt ddangos beth sy'n gweithio orau i bwy, a sut i ailadrodd yr ymyriadau i gael yr un canlyniadau. Ar yr un pryd, mae angen i ni ddeall y ffactorau sy'n cyfrannu at ganlyniadau a phrosesau'r newid.

Argymhellion

Mae ymchwil mabwysiadu ymhell o fod yn gyflawn. Hyd yn oed o ystyried y cyfyngiadau ar gwmpas yr adolygiad hwn, mae'n glir bod angen cynnal astudiaethau gwyddonol cymhleth a nifer o astudiaethau llai sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr a gweithredu polisi.

Mae angen ystyried cynllunio astudiaethau hydredol tymor hirach arfaethedig o'r ffordd orau o ddefnyddio'r holl weithgareddau a ysgogwyd gan agenda fabwysiadu'r llywodraeth. Gellir cynnal astudiaeth ratach a llai cymhleth sy'n cymryd llai o amser wedyn. Efallai y bydd yn rhaid i rai mentrau fod ar waith am sawl blwyddyn cyn y gellir cynnal gwaith gwerthuso defnyddiol.

Wrth gynnal ymchwil mabwysiadu da gellir cael goblygiadau arwyddocaol iawn o bosib i blant na all aros gyda'u rhieni biolegol. Po fwyaf y mae arferion wedi'u seilio ar wybodaeth gadarn ar sail ymchwil, mwyaf oll yw'r posibilrwydd y bydd y perygl o darfu a lleoliad ansefydlog yn gostwng ac yn sgil hynny yr angen am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol parhaol i blant mabwysiedig a theuluoedd sy'n mabwysiadu.

Social Care Institute for Excellence
Goldings House
2 Hay's Lane
Llundain SE1 2HB
Ffôn 020 7089 6840
Ffacs 020 7089 6841
Ffôn testun 020 7089 6893
www.scie.org.uk

Bydd fersiwn braille, ar dâp ac argraffiadau print bras ar gael ar gais.

Mae fersiwn lawn o'r Adolygiad Gwybodaeth ar gael ar wefan SCIE ac mewn print oddi wrth SCIE.